

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Cyfarfod:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	25 Tachwedd 2021
Teitl yr adroddiad:	Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2022/23
Adroddiad gan:	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Pwrpas yr Adroddiad:	Adroddiad ar gynigion drafft y Panel ar gyfer 2022/23

1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

Mae Adroddiad Blynyddol Drafft y Panel ar gyfer 2022/23 wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad hyd at 26 Tachwedd 2021. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2022.

2.0 Amserlen Gweithredu Penderfyniadau'r Panel

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Adroddiad Blynyddol y Panel ddod i rym o 1 Ebrill. Fodd bynnag, pan fydd cynghorau newydd yn cael eu hethol bydd rhai o benderfyniadau'r Panel yn effeithiol ar gyfer tymor newydd y Cyngor. Felly mae dau ddyddiad gweithredu gwahanol i Adroddiad Blynyddol 2022/23, sef:

- Bydd yr holl benderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2021/22 yn parhau i fod yn weithredol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill ac 8 Mai 2022.
- Bydd y penderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2022/23 yn weithredol o 9 Mai 2022.

Amlinellir isod y newidiadau sy'n bethnasol i'r Cyngor hwn.

3.0 Cyflog Sylfaenol

Cynigir cynnydd yn y cyflog sylfaenol yn 2022/23 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau, gan fynd o £14,368 i **£16,800**.

4.0 Uwch Gyflogau

4.1 Nifer yr uwch gyflogau

Mae'r adroddiad drafft yn nodi y bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn dal i sefyll, hy cyfanswm o 16 i Ynys Môn. Mae'r cyfanswm yn cynnwys cyflogau dinesig.

Bydd angen i'r Panel ddiweddarau'r adroddiad i gydfynd â'r Gorchymyn Statudol a ddaeth i rym ym mis Hydref 2021, sy'n cynyddu nifer yr aelodau etholedig ar y Cyngor i 35.

4.2 Y Bandiau uwch gyflogau

Bydd uwch gyflogau a chyflogau dinesig yn cynyddu fel yr amlinellir yn y tabl isod:

Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig 2022/23 (gan gynnwys y cyflog sylfaenol)		1 Ebrill – 8 Mai 2022	O 9 Mai 2022
Uwch Gyflogau			
Band 1	Arweinydd	£44,921	£53,550
	Dirprwy Arweinydd	£31,783	£37,485
Band 2	Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith	£27,741	£32,130
Band 3	Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir)	£23,161	£25,593
Band 4	Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf	£23,161	£25,593
Band 5	Arweinwyr grŵpiau gwleidyddol arall	£18,108	£20,540
Cyflogau Dinesig (os y'u telir)			
Band 3	Pennaeth Dinesig	£23,161	£25,593
Band 5	Dirprwy Bennaeth Dinesig	£18,108	£25,540

5.0 Cynorthwyr i'r Pwyllgor Gwaith

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn galluogi cynghorau i benodi aelodau etholedig i gynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni ei swyddogaethau. Gwneir penodiadau o'r fath gan Arweinydd y

Cyngor. Mae eithriadau fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth ac nid yw cynorthwyr yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith.

Mae'r Panel wedi ystyried materion cydnabyddiaeth tâl ar gyfer aelodau sydd wedi'u penodi fel cynorthwyr y Pwyllgor Gwaith ond wedi dod i'r casgliad nad yw'n bosibl penderfynu ar daliadau ychwanegol, os o gwbl, nes y bydd rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â dyletswyddau'r swyddi. Felly, cynigir y bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach pan fydd cyngor yn penderfynu penodi a phan fydd manylion y cyfrifoldebau penodol ar gael. I weithredu hyn heb fod angen adroddiad ffurfiol pellach, bydd y penderfyniad a ganlyn yn berthnasol:

“Penderfyniad 13: Bydd y Panel yn penderfynu fesul achos ar yr uwch gyflog priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwyr y weithrediaeth.”

6.0 Goblygiadau Ariannol

Bydd lefel y cynnydd yn y lwfansau a gynigir gan y Panel yn cynyddu costau i gynghorau. Mewn perthynas ag Ynys Môn, gyda 35 o Aelodau ar ôl yr Etholiadau lleol, rhagwelir y bydd hyn oddeutu £180,000 y flwyddyn. (Ar gyfer 2022/23, bydd y lwfansau newydd yn daladwy o fis Mai 2022). Mae derbyn lwfansau yn fater o ddewis i'r Aelodau unigol, er bod y Panel yn annog hyn.

7.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y penderfyniadau drafft o fewn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23 ac os yw'r Pwyllgor yn dymuno ymateb i'r ymgynghoriad.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
18.11.21

Papur Cefndirol: Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, 2022/23:

<https://llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2022-i-2023>